# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 10 Awst 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 15 Awst 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23 Awst 2018 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd. W Gareth Roberts

Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

---

**Pwnc :**

Cynyddu'r ffi am ofal nyrsio yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys.

---

**PENDERFYNIAD –**

- Cymeradwyo'r ffioedd diwygiedig isod am ofal Nyrsio yn dilyn penderfyniad yr Uchel Lys.

| | Ffi 2018/19 | Ffi 2018/19 diwygiedig |
|---|---|---|
| Gofal Nyrsio | £606.92 yr wythnos* | £613.51 yr wythnos* |
| Gofal Nyrsio Dementia | £639.19 yr wythnos* | £645.78 yr wythnos* |
| **ddim yn cynnwys cyfraniad Iechyd* | | |

- Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Lles i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i sefydlu graddfa derfynol yn sgil unrhyw wybodaeth bellach, neu unrhyw newid mewn amgylchiadau, ddaw yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad swyddog atodol

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

---

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd: Gareth Roberts |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Rhion Glyn, Uwch Rheolwr Busnes |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 10/08/2017 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | W Garett Roberts |

**Pwnc :** Cynyddu i'r ffi am ofal nyrsio yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

**1. Cymeradwyo'r ffioedd diwygiedig isod am ofal Nyrsio yn dilyn penderfyniad yr Uchel Lys.**

| | **Ffi 2018/19** | **Ffi 2018/19 diwygiedig** |
|---|---|---|
| **Gofal Nyrsio** | **£606.92 yr wythnos*** | **£613.51 yr wythnos*** |
| **Gofal Nyrsio Dementia** | **£639.19 yr wythnos*** | **£645.78 yr wythnos*** |
| **** Ddim yn cynnwys cyfraniad Iechyd*** | | |

**2. Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Lles i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i sefydlu graddfa derfynol yn sgil unrhyw wybodaeth bellach, neu unrhyw newid mewn amgylchiadau, ddaw yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19.**

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn flynyddol mae'r Cyngor yn gosod y ffioedd rydym yn talu darparwyr cartrefi gofal annibynnol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth ein trigolion. Gweler isod symiau wythnosol ar gyfer 2018 / 19

| **Categori Gofal** | **£ yr wythnos** |
|---|---|
| Gofal Preswyl | £525.07 |
| Gofal Preswyl Dementia | £585.41 |
| Gofal Nyrsio | £606.92* |
| Gofal Nyrsio Dementia | £639.19* |

| * *Ddim yn cynnwys cyfraniad Iechyd* |
|---|

Yn ychwanegol i'r ffi mae'r Cyngor yn ei dalu i ddarparwyr cartrefi gofal annibynnol am ofal Nyrsio neu ofal Nyrsio Dementia, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu swm wythnosol er mwyn diwallu anghenion  sy'n cael eu cyfarch gan Nyrs Cofrestredig. Gelwir y cyfraniad hwn yn 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu' (FNC – Funded Nursing Care). Mae'r cyfraniad hwn gan y Bwrdd Iechyd yn berthnasol os yw'r unigolyn yn cael gofal Nyrsio mewn cartref Nyrsio.

Nol yn 2014, cychwynnwyd achos cyfreithiol gan nifer o Gartrefi Gofal yn gofyn am adolygiad barnwrol o benderfyniad y Bwrdd Iechyd wrth osod eu ffioedd ar gyfer 2014-15. Roeddent yn ceisio cynnydd yn y taliad oedd yn cael ei wneud iddynt gan y Bwrdd Iechyd am yr elfen 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu'.

Cafwyd ddyfarniad gan yr Goruchaf  Lys yn ôl yn 2017 a oedd yn diddymu penderfyniad y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15 a gorchmynnwyd fod y Bwrdd Iechyd yn ail-edrych ar y penderfyniad a sicrhau fod y swm cywir o ran y 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu' yn cael ei gyfrifo.

Roedd dyfarniad yr Uchel Lys yn 2017 nodi gweithgareddau'r Nyrs Gofrestredig ddylai gael ei gynnwys fel rhan o'r 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu'. Yn ychwanegol i'r elfennau hynny sydd yn barod yn cael ei ariannu, mae'r Llys wedi pennu y dylai'r canlynol gael ei cyd-ariannu rhwng y Byrddau Iechyd ac yr Awdurdodau Lleol.

- Egwyl sy'n cael ei dalu
- Amser mae'n gymryd i'r Nyrs Gofrestredig gael ei oruchwylio
- Cyfran o amser ar gyfer gofal personol sy'n cynrychioli'r amser a dreulir ar ddarparu, cynllunio, goruchwylio neu ddirprwyo ddylai gael ei wneud gan y Nyrs Cofrestredig, gyda gweddill o'r amser ar gyfer gofal personol a chymdeithasol i gael ei ariannu gan yr Awdurdod Lleol.

Ers dechrau 2018 mae'r Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol wedi bod yn gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyfarniad yr Uchel Lys, a hefyd er mwyn ystyried y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm chynyddu ffi wythnosol ar gyfer 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu' ac unrhyw gynnydd i ffi wythnosol Awdurdodau Lleol am ofal Nyrsio.

Erbyn hyn mae cytundeb rhwng y Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar y cynnydd ariannol sy'n deillio o'r dyfarniad i gyfarch yr elfennau a nodir uchod. Bydd y ffi wythnosol ar gyfer 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu' yn cynyddu o £149.67 yr wythnos i £162.75 yr wythnos. Bydd Awdurdodau Lleol yn cynyddu'r ffi ar gyfer gofal Nyrsio o £6.59 yr wythnos fesul unigolyn er mwyn cyfarch cyfran o'r gofal personol a chymdeithasol.

Rydym yn ymwybodol bod cynrychiolwyr cyfreithiol Fforwm Gofal Cymru wedi codi cwestiynau ar sut mae elfennau o'r 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu' (FNC –

Funded Nursing Care) yn cael ei gyfrifo ac mae'r rhain yn cael eu delio ar wahân. Gall canlyniad y cwestiynau hynny effeithio'r gyfradd 'Gofal Nyrsio sy'n cael ei Ariannu' (FNC – Funded Nursing Care) a hefyd swm yr awdurdod lleol y gofynnir am benderfyniad arno. O ganlyniad i hyn felly, gofynnir i'r Aelod Cabinet ddirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Lles i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i sefydlu'r graddfa derfynol yn sgil unrhyw wybodaeth bellach, neu unrhyw newid mewn amgylchiadau, ddaw yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19.

Gweler isod yr hyn mae'r cynnydd hwn yn ei olygu i'r ffi rydym yn talu cartrefi annibynnol i ddarparu gofal Nyrsio a gofal Nyrsio Dementia.

| | **Ffi 2018/19** | **Ffi 2018/19 diwygiedig** |
|---|---|---|
| Gofal Nyrsio | £606.92 yr wythnos* | £613.51 yr wythnos* |
| Gofal Nyrsio Dementia | £639.19 yr wythnos* | £645.78 yr wythnos* |
| ** Ddim yn cynnwys cyfraniad Iechyd* | | |

Mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn berthnasol hefyd i benderfyniadau hanesyddol o ran gosod y ffi am Ofal Nyrsio . Mae trefniadau mewn lle ar gyfer delio gyda hyn trwy roi ôl daliad i'r Cartrefi perthnasol. Mae'r trefniant hwn yn cael ei wneud gan y Byrddau Iechyd ar draws Cymru ac yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu grant ar-wahân i ni yn 2018/19 i ariannu'r cynnydd yn ein ffi, gan edrych i drosglwyddo cyllideb parhaol ar gyfer y costau fel rhan o'r setliad yn 2019/20. Rydym hefyd wedi derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru o ran sut mae'r dyfarniad a defnydd o'r grant yn plethu i mewn i drefniadau ein Polisi Codi Tal.

Yn unol â dyfarniad yr Uchel Lys mae disgwyliad arnom i fabwysiadu'r ffioedd diwygiedig a'i weithredu mor fuan â phosib.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim yn berthnasol.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid**

"Rwyf yn fodlon fod yr addasiad yn y ffioedd fel a amlinellir yn y daflen benderfyniad yn adlewyrchiad teg o'r hyn sy'n angenrheidiol yn sgil dyfarniad y Goruchaf Lys. Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd

hwn trwy grant penodol ar gyfer 2018/19, gyda'r bwriad o drosglwyddo'r costau ychwanegol i'r setliad ar gyfer 2019/20 ymlaen.

Nodir yn y daflen fod cartrefi yn parhau i gwestiynu rhai elfennau o'r ffioedd. Rwyf yn fodlon fod trefniadau ariannu clir wedi cael eu sefydlu ymysg cyrff cyhoeddus er mwyn ymdrin ag unrhyw addasiadau pellach fyddai'n deillio o hyn. Felly, ni fyddai gennyf wrthwynebiad i ddirprwyo'r penderfyniad ar raddfa derfynol y ffioedd i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant petai mân addasiadau pellach yn angenrheidiol"

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad wedi bod yn destyn mewnbwn cyfreithiol. Fe nodir yn yr fod cefndir penodol i'r penderfyniad yma yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos R. (on the application of Forge Care Homes Ltd) v Cardiff and Vale University Health Board [2017] . Mae'r addasiadau a gynnigir wedi eu annelu at adlewyrchu oblygiadau'r dyfarniad ar y ffioedd a osodir gan gydnabod fod angen elfen o hyblygrwydd i ymdrin a'r sefyllfa gyfredol ar gyfer 2018/19.

**Aelod/au Lleol**

Dim yn berthnasol